**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 9fed Hydref, 2018 am 7.30pm yn Neuadd Dihewyd**

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Haf Hughes (Cadeirydd), Lynford Thomas, Gerwyn Owen, Johnny Davies, Harry Williams, Lyn Williams, Alan Henson, Glyn Davies, Daniel Evans, Hywel Ifans

**1.YMDDIHEURIADAU** Y Cyng. Owen Llywelyn

**2. PERSONOL** Dim materion personol

**3. DATGELU BUDDION PERSONOL** Dim i'w datgelu

**4**. **COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 11eg Medi, 2018 yn gywir. Cynigiwyd gan Y Cyng. Gerwyn Owen ac eilwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas.

**5. MATERION YN CODI**

Dim materion

**6**. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Lynford Thomas am y digwyddiadau amrywiol bu'n mynychu yn ystod y mis. Soniodd yn arbennig am ganlyniadau gwych disgyblion Ceredigion yn yr arholiadau TGAU a Lefel A. Yn dilyn digwyddiad lle bu'n cwrdd â gofalwyr o bob oedran, soniodd am y diffyg cefnogaeth sydd ar gael iddynt. Anogodd bawb yn y cyfarfod i estyn help llaw, neu i roi gwybod i'r awdurdodau am unrhyw un sydd angen cefnogaeth.

**7**. **ADRODDIAD UN LLAIS CYMRU**

Cynhaliwyd Pwyllgor Ardal Ceredigion ar 26/9/2018 a'r Cyfarfod Blynyddol ar 29/9/2018. Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Harry Williams,

I. Pwyllgor Ardal. Mynychwyd y cyfarfod hwn gan Cyng. Harry Williams a Lynford Thomas. Er mai siomedig oedd rhifau'r mynychwyr yn y Pwyllgor Ardal roedd hi'n braf gael presenoldeb a chyflwyniad gan Y Prif Weithredwr, Lyn Cadwallader.

II. Cyfarfod Blynyddol. Yn absenoldeb Alun Davies AC cafwyd anerchiad pwrpasol gan Debbie Wilcox, Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Cafwyd hefyd cyflwyniad ar yr ymateb i'r Adolygiad Annibynnol ar ddyfodol cynghorau tref a chymuned. Bydd yr argymhellion yn cael eu trafod a'u hystyried gan banel o arbenigwyr wedi ei benodi gan Lywodraeth Cymru.

**8. CYLLID**

Trafodwyd adroddiad yr archwilydd allanol a chodwyd y materion isod yn dilyn archwiliad cyfrifon 2017/2018:

I. Bod y dyddiad ar gyfer hysbysu'r etholwyr o'i hawliau i arolygu cofnodion a llyfrau'r Cyngor 4 diwrnod yn brin. Mae'n ofynnol cynnig 20 diwrnod gwaith ar gyfer y cyfnod arolygu. Rhaid sicrhau bod y cyfnod arolygu yn cael ei hysbysebu'n gywir yn y dyfodol.

II. Roedd yr Adran Ailgymeradwyaeth ar y ffurflen wedi ei lenwi pan nad oedd angen 'neud hynny.

III. Y ffi am waith yr Archwilwyr Allanol eleni yw £247.25 + TAW. Bydd anfoneb yn cyrraedd maes o law.

Ar gynnig y Cyng. Hywel Glyn a'i eilio gan y Cyng. Harry Williams **derbyniwyd** sylwadau ac argymhellion yr Archwilwyr Allanol.

**10. GOHEBIAETH**

I. Gwahoddiad i 'Dweud Eich Dweud' am Wasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru. Dau leoliad sef Aberystwyth ac Aberteifi. Datganodd y Cyng. Harry Williams siom nad oedd naill ai Abereron neu Lanbed yn rhan o'r daith**. Penderfynwyd** cysylltu â'r Gwasanaeth Tân i nodi ein siom.

II. Derbyniwyd cais gan Mary Davies, Warden Eglwys Ystrad am gyfraniad ariannol ar gyfer Neuadd yr Eglwys. Yn dilyn trafodaeth:

a) **penderfynwyd** trafod y cais yn y cyfarfod hwn, yn hytrach nag ym mis Rhagfyr, gan ein bod eisoes wedi penderfynu cyfrannu swm o'r Praesept eleni ar gyfer y gwaith hwn. (Cyfarfod Medi 2018).

b) **penderfynwyd** ar swm o £1,500. Cynigiwyd gan Y Cyng. Glyn Davies ac eilwyd gan Y Cyng. Gerwyn Owen.

**11. CYNLLUNIO**

Dim materion cynllunio i'w trafod.

**12, UNRHYW FATER ARALL**

Codwyd mater gan y Cyng. Gerwyn Owen ynglŷn â'r ffaith nad oedd pafin wedi ei osod eto o flaen un o blotiau'r tai newydd ger y groesffordd yn Dihewyd. Nodwyd pryder o ran diogelwch plant sy'n dal y bws ysgol. **Penderfynwyd** cysylltu ag Adran y Prffyrdd i holi am eglurhad am bwy sydd â chyfrifoldeb dros osod y pafin.

**13. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fawrth, 13eg Tachwedd, 2018 yn Neuadd Felinfach, am 7.30pm.